

# Mwy na geiriau:
## Straeon Bywyd Go Iawn

1. **Beth yw dy enw a pha gwrs wyt ti'n astudio?**
   Emma Lee, BA Almaeneg a Gwleidyddiaeth.

2. **Pa ieithoedd wyt ti'n siarad, sydd o ddiddordeb i ti, neu rwyt ti'n ymwneud â nhw mewn unrhyw ffordd?**
   Saesneg ydy fy mamiaith, ond nes i ddod ar draws llawer o ieithoedd yn yr ysgol. Nes i astudio Ffrangeg a Sbaeneg yn yr ysgol gynradd ac wedyn Almaeneg, Japanaeg a Sbaeneg yn yr ysgol uwchradd. Nes i barhau efo Almaeneg ar gyfer Safon Uwch ac roeddwn i wrth fy modd. Dwi bron ar ddiwedd fy ail flwyddyn yn astudio Almaeneg yn y brifysgol!

3. **Ar ba adeg yn dy fywyd sylweddolaist ti pa mor bwysig a pha mor werthfawr yw gwybod mwy nag un iaith?**
   Yn gynnar iawn. Mi ges i fy magu yn Llundain wedi fy amgylchynu gan gannoedd o ieithoedd, diwylliannau a chrefyddau bob dydd ac felly nes i ddeall yn gyflym pa mor bwysig ydy gallu cyfathrebu efo pobl eraill.

4. **Sut mae gallu siarad mwy nag un iaith wedi dy helpu yn dy fywyd personol?**
   Mae o wedi rhoi cyfleoedd anhygoel i fi, ffrindiau newydd, ac ymdeimlad o gymuned llawer ehangach. Mae hefyd yn rhoi hwb go iawn i dy hyder pan ti'n cyfathrebu'n llwyddiannus efo rhywun mewn iaith sydd ddim yn dy famiaith. Mae'n gwneud i ti deimlo'n llawn balchder. Mae dysgu ieithoedd eraill hefyd wedi dangos i mi pa mor bwysig ydy'r gymuned fyd-eang i mi.

5. **Sut mae gwybod mwy nag un iaith wedi dy helpu, neu sut bydd yn helpu, yn dy fywyd proffesiynol?**
   Mae'n bendant wedi agor drysau i mi, er enghraifft mae wedi rhoi cyfle i mi weithio dramor am flwyddyn fel rhan o fy nghwrs

www.mflmentoring.co.uk
**Trydar:** @MFLMentoring
**Instagram:** @MFLMentoring
**LinkedIn:** Mentora ITM

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
**go.pearson.com/MFLGCSE24**

gradd. Dwi hefyd wedi cael profiad gwaith anhygoel trwy fy nghariad ac angerdd at ddysgu ieithoedd. Mae hyn yn ei dro wedi datblygu fy sgiliau arwain, cyfathrebu a threfnu.

6. **Beth wyt ti'n gobeithio ei wneud fel gyrfa/gyrfaoedd yn y dyfodol?**
   Gwleidyddiaeth ryngwladol /gwleidyddiaeth Ewropeaidd.

7. **O ran dysgu ieithoedd, beth sydd wedi cael y dylanwad mwyaf ar dy fywyd hyd yn hyn?**
   Y cyfleoedd mae wedi'u rhoi i mi; teithio, gweithio, addysgu/mentora a gwneud ffrindiau newydd.

8. **Beth fu'r fantais fwyaf annisgwyl o ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Mae wedi fy arwain at y llwybr gyrfa sydd i fod i mi. Roeddwn i bob amser yn gwybod fy mod eisiau gyrfa mewn gwleidyddiaeth, ond mae dysgu ieithoedd wedi rhoi cipolwg i mi ar y cysylltiadau a'r systemau gwleidyddol mewn gwledydd eraill. Dyma'r maes dwi'n anelu at weithio ynddo bellach!

9. **Beth fu'r agwedd fwyaf heriol am ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Nes i wynebu gymaint o rwystrau i allu dilyn TGAU a Safon Uwch mewn Almaeneg. Yn fy ysgol roedd Almaeneg wedi cael ei roi mewn bloc opsiynau efo pynciau fel Daearyddiaeth a Chelf, felly roedd rhaid i mi aberthu cymryd Celf i gario ymlaen efo Almaeneg. Yna, mi benderfynodd fy ysgol roi'r gorau i gynnig Safon Uwch Almaeneg, felly roedd rhaid i mi symud i ysgol arall a gadael fy holl ffrindiau ar ôl er mwyn gallu cario ymlaen i wneud Almaeneg.

10. **Beth yw dy hoff air neu ymadrodd mewn iaith heblaw Saesneg?**

*"Il dolce far niente"* – mae'n golygu'r llawenydd/melyster o wneud dim byd. Mae o'n ymadrodd hyfryd sy'n dy atgoffa di, pan fydd popeth yn teimlo'n brysur ac yn straen, mae angen i ti roi saib bach i dy feddwl – egwyddor y dylen ni i gyd ei dilyn dwi'n meddwl.

11. **Hoffet ti siarad unrhyw ieithoedd eraill?**
Byddwn i wrth fy modd yn siarad Eidaleg. Mae rhai o'm hoff lyfrau a rhaglenni teledu'n dod o'r Eidal a byddwn i wrth fy modd yn gallu darllen y fersiynau gwreiddiol a gwylio'r rhaglenni heb isdeitlau. Mae hi'n iaith mor brydferth hefyd.

12. **Sut mae bod yn Fentor ITM wedi cefnogi dy daith gydag ieithoedd?**
Mae'r profiad yma wedi fy annog i'n aruthrol i fynd ati i hyrwyddo ieithoedd yn y gymuned ehangach. Mae'n faes polisi y byddwn i wrth fy modd yn gweithio ynddo ar ôl graddio. Mae hefyd wedi rhoi hyder i mi yn fy ngallu fy hun ac ymdeimlad o falchder yn yr hyn dwi'n gallu ei gyflawni.

13. **Oes unrhyw berson neu unrhyw eiliad neu unrhyw beth penodol wedi dy ysbrydoli di ar dy daith i ddysgu iaith?**
Roedd fy athro TGAU Almaeneg yn ysbrydoliaeth enfawr i mi ac fe wnaeth hi fy annog i'n fawr. Heb ei help hi, fyddwn i ddim yn y sefyllfa anhygoel dwi ynddi nawr. Mi wnaeth fy nhad fy ysbrydoli hefyd. Mae'n debyg mai gwrando arno fo'n siarad Almaeneg oedd fy nghymhelliant cyntaf oherwydd roeddwn i eisiau gallu cyfathrebu efo pobl eraill fel roedd o'n gallu!

14. **Oes gen ti straeon doniol i'w rhannu am dy brofiadau dysgu iaith?**
Pan ddechreuais i ddysgu Almaeneg, pan fyddwn yn gofyn i'r person wrth y til faint oedd

rhywbeth yn ei gostio, byddwn i'n aml yn camddeall yr ateb. Ar sawl achlysur nes i gael y swm yn anghywir, gan olygu fy mod i'n gwario tair gwaith gymaint â'r pris roeddwn i wedi'i ddeall i ddechrau!

15. **Pe gallet ti roi un darn o gyngor i fyfyrwyr sy'n meddwl am ddysgu iaith arall, beth fyddai hynny?**
    Ewch amdani! Dim ond agor drysau i chi fydd o, fydd o byth yn eu cau!

